# Bondio metelig ac aloion

## Amcanion dysgu

1. Disgrifio'r adeiledd a'r bondio mewn metelau pur ac aloion.
2. Egluro priodweddau metelau pur ac aloion drwy ddefnyddio eich dealltwriaeth o'u hadeiledd a'u bondio.

## Cyflwyniad

Mae bondio metelig yn fath o fond cemegol cryf sy'n digwydd mewn metelau pur ac aloion yn unig. Mae **aloion** yn gymysgedd o ddwy elfen neu ragor ac mae o leiaf un o'r elfennau hynny'n fetel. Mae gan **fetelau** adeileddau enfawr tri dimensiwn lle mae ïonau metel positif wedi'u trefnu mewn haenau wedi'u hamgylchynu gan fôr o electronau dadleoledig. **Bondiau metelig** yw'r rhyngweithiadau electrostatig cryf rhwng yr ïonau metel sydd â gwefr bositif a'r môr o electronau dadleoledig. Mae gan fetelau ac aloion ymdoddbwyntiau uchel oherwydd bod angen llawer iawn o egni i drechu'r grymoedd hyn.

Mae metelau yn ddargludyddion trydanol da oherwydd bod y môr o electronau dadleoledig yn rhydd i symud drwy'r adeiledd a chario gwefr drydanol.

## Tasg 1 – Cywir neu anghywir?

Penderfynwch a yw'r datganiadau canlynol yn **gywir** neu'n **anghywir**:


- Mae gan ïonau metel wefr bositif bob tro.
- Mae'r ïonau metel wedi'u pacio'n agos at ei gilydd yn yr adeiledd.
- Mewn bondio metelig, mae electronau'r plisgyn allanol yn ddadleoledig.
- Mae'r electronau dadleoledig mewn safle sefydlog ac nid ydynt yn gallu symud.
- Ni all metelau ddargludo trydan.
- Mae gan fetelau ymdoddbwyntiau uchel.
- Mae metelau'n hydrin ac yn hydwyth.
- Mae aloi yn gymysgedd o ddwy elfen neu ragor ac mae o leiaf un o'r elfennau hynny yn fetel.
- Mae metelau pur yn gryfach nag aloion.
- Mae gan aloion adeiledd haenog.
- Mewn aloion, mae'r atomau i gyd yr un maint.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Tasg 2 – Disgrifiad o fondio metelig

1. Roedd myfyriwr wedi cynhyrchu'r diagram isod i gynrychioli'r adeiledd a'r bondio mewn magnesiwm. Mae rhai gwallau yn y diagram hwn.

   **Nodwch dri gwall.** Defnyddiwch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o fondio metelig.




| Disgrifiad o'r gwall | Esboniad pam mae hyn yn anghywir |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

**2.** Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu i gynrychioli bondio metelig mewn magnesiwm. Defnyddiwch eich anodiadau o gwestiwn 1 a'ch gwybodaeth eich hun.

## Tasg 3 – Priodweddau metelau pur

Mae'r tabl isod yn cynnwys nifer o briodweddau pwysig metelau.


**Eglurwch bob priodwedd.** Defnyddiwch eich atebion o Dasg 2 i egluro pob priodwedd.

| Priodweddau metelau | Esboniad gan ddefnyddio gwybodaeth am fondio metelig |
|---|---|
| Ymdoddbwynt uchel | |
| Dwysedd uchel | |
| Dargludo trydan yn dda | |
| Hydrin a hydwyth | |

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Tasg 4 - Aloion

Mae'r diagram isod yn dangos adeiledd aloi. Mae aloion sy'n cynnwys alwminiwm yn cael eu defnyddio i weithgynhyrchu awyrennau oherwydd eu bod yn gryfach na metelau pur. **Cymharwch** adeiledd aloi ag adeiledd metel pur ac **eglurwch** pam mae aloion yn cael eu defnyddio yn hytrach nag alwminiwm pur.



© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol